**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Richard Collier-Keywood
Cadeirydd
Abi Tierney
Prif Weithredwr
Nigel Walker
Cyfarwyddwr Gweithredol Rygbi
Undeb Rygbi Cymru

09 Chwefror 2024

**Honiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru - y wybodaeth ddiweddaraf am hynt adroddiad yr adolygiad annibynnol**

Annwyl Richard, Abi, a Nigel,

Diolch i chi am ddod i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 24 Ionawr 2024, lle buoch chi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ymateb URC i ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol diweddar i honiadau o agweddau rhywiaethol, casineb at fenywod, homoffobia a hiliaeth yn y sefydliad.

Gwnaeth yr adroddiad yn glir bod angen gwneud cryn dipyn o waith er mwyn ailadeiladu ymddiriedaeth yn URC, ac i fynd i'r afael â diffygion difrifol yn niwylliant, llywodraethiant ac arweinyddiaeth y sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hynt y gwaith hyd yma i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Rydym yn arbennig yn canmol penodi grŵp goruchwylio allanol i sicrhau bod y cynnydd hwn yn parhau ar raddfa gyflym, yn ogystal â'ch addewid i gyhoeddi 'adroddiadau cynnydd' rheolaidd.  Hyderwn y bydd y rhain yn rhoi sicrwydd o ymrwymiad yr uwch dîm arwain i sicrhau llwyddiant URC yn y dyfodol.

Nodwn o'ch 'adroddiad cynnydd' chwarterol cyntaf y disgwylir i nifer o gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol fod ar waith erbyn 30 Mehefin 2024. Er mwyn i ni gael gwybod am hynt eich gwaith, hoffem gymryd tystiolaeth gennych eto yn gynnar yn nhymor yr hydref 2024, yn dilyn y garreg filltir honno.

Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.